# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Tachwedd 2020

Amser: 09.30 - 13.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6535) yn:

[http://senedd.tv/cy/6535](http://senedd.tv/cy/6535)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Senedd: | Helen Mary Jones AS (Cadeirydd dros dro)<br>Mick Antoniw AS<br>John Griffiths AS<br>Carwyn Jones AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Pedr ap Llwyd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>Ifan Morgan Jones, Prifysgol Bangor<br>Emma Meese, Prifysgol Caerdydd<br>Nick Powell, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr<br>Dafydd Elis-Thomas AS, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth<br>Steffan Roberts, Llywodraeth Cymru<br>Jason Thomas, Llywodraeth Cymru<br>David Michael, Llyfrgell Genedlaethol Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Angharad Roche (Dirprwy Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd)<br>Rhys Morgan (Clerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cytunodd yr aelodau pe bai Helen Mary Jones yn colli cysylltiad am unrhyw reswm yn ystod y cyfarfod, y byddai David Melding yn dod yn Gadeirydd dros dro nes bod Helen Mary Jones yn gallu ailymuno â'r cyfarfod.

## 2 Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Trafododd yr aelodau ganfyddiadau'r Adolygiad wedi'i Deilwra gyda'r Llyfrgellydd Cenedlaethol.

## 3 Adolygiad Teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Trafododd yr aelodau’r Adolygiad wedi'i Deilwra gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

## 4 Cymorth ar gyfer y cyfyngau newyddion

Clywodd yr aelodau gyflwyniadau gan y tystion a thrafod cefnogaeth ar gyfer y cyfryngau newyddion.

## 5 Papur(au) i’w nodi

Nododd yr Aelodau y papurau.

**5.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad byr ar effaith yr achosion o COVID-19 ar y diwydiannau creadigol**

**5.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad byr ar Effaith COVID-19 ar newyddiaduraeth a'r cyfryngau lleol**

**5.3 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ar ddysgu cerddoriaeth**

**5.4 Eitem 5.4 Llythyr gan yr FDA ynghylch cyllid ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd yr Aelodau i'r cynnig.

## 7 Ôl-drafodaeth breifat

Cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at:

- y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth gyda chrynodeb o'r materion sy'n wynebu'r cyfryngau newyddion, ac i ofyn am ddatganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad wedi'i Deilwra o Lyfrgell Genedlaethol Cymru;
- y Gweinidog Addysg i ofyn am y defnydd o archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Cwricwlwm newydd, ac
- uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, i ofyn am fanylion pellach am y gweithdrefnau o ran penodiadau cyhoeddus.